

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 16 – 17 Mehefin 2019

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Ivan Monckton – Unite
Darren Williams – FUW
Helen Snow – Geldards

Peter Rees – Aelod Annibynnol
Neil Beveridge – Unite
Will Prichard – NFU Cymru

Llywodraeth Cymru:

Ryan Davies – Rheolwr y Panel
Spencer Conlon - Arweinydd Prosiect Fframwaith Strategol Amaethyddol
Mark Alexander - Pennaeth Amaethyddiaeth, Is-adran Datlbygu Cynaliadwy
Karla Price & Dan Ricketts – Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau

Steve Hughson – Aelod Annibynnol

Eitem 1 - Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Mark Alexander sy'n bennaeth Amaethyddiaeth, yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy yng Nghaerdydd.

Eitem 2 - Newyddion diweddaraf y Cadeirydd

Nid oedd dim i'w adrodd yn ôl.

Eitem 3 - Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Chamau Gweithredu

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod Panel blaenorol. Roedd nifer o Bwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar agenda y cyfarfod hwn.

Cafwyd y newyddion diweddaraf ar y Cynnydd a wnaethpwyd gyda Cyswllt Ffermio ynghylch derbyn data ystadegol. Pan fydd busnes yn cofrestru gyda Cyswllt Ffermio caiff rhywfaint o ddata ystadegol ei gasglu am y busnes, ond ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chasglu am unigolion / gweithwyr - ethnigrwydd, oedran, rhyw ac ati. Os fydd yr unigolion yna'n cofrestru gyda Cyswllt Ffermio caiff yr wybodaeth hon ei chasglu. Mae oddeutu 9,000 o fusnesau wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio yn ogystal â 14,000 o unigolion (gan gynnwys contractwyr hunangyflogedig). Mae oddeutu 12,000 o fusnesau yn hawlio o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol ond amcangyfrifir y gallai fod hyd at 24,000 o ffermwyr yng Nghymru. Ni chafodd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan

Cyswllt Ffermio o dan y broses gofrestru ei datblygu ar gyfer gwybodaeth ynghylch cyflogau, ac roedd yn mynd i fod yn anodd iawn i ddatblygu hyn ymhellach.

Eitem 4 - Cyhoeddusrwydd i Ymgynghoriadau yn y Dyfodol

Cafodd costau hysbysebu mewn amrywiol gyhoeddiadau (Farmers Guardian, Farmers Weekly, cylchgrawn Agri Trader) eu crynhoi i'r Panel. Cytunwyd bod angen ceisio gwella y gyfradd ymateb. Gellid gofyn i Cyswllt Ffermio am help gyda rhywfaint o gyhoeddusrwydd mwy "gweithredol".

Dywedwyd y byddai Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/FUW yn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ystyried safbwyntiau eu haelodau, felly er mai dim ond un ymateb a gafwyd gan bob Undeb bydd yn gynrychioladol o safbwynt yr aelodau.

Cytunodd y Panel, am £470 (+TAW) gellid prynu hysbyseb llawn ym mhob un o'r 3 o rifynnau o'r Agri Trader oedd yn cael ei ddarllen gan gyflogeion a gweithwyr. Byddai hysbyseb yn cael ei baratoi gan gysylltu â'r cylchgrawn ynghylch amseru a chyhoeddi yr hysbyseb.

Eitem 5 - Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (Cymru)

Cyflwynwyd crynodeb o'r Adroddiad yn ogystal ag argymhellion penodol sy'n cael eu rhoi yn benodol ar gyfer gwaith y Panel. Barn y Gweinidogion am yr adroddiad hwn yw y gofynnir i'r Panel ystyried yr argymhellion ac ymateb iddynt. Dywedodd y Cadeirydd bod yn rhaid ystyried a thrafod yr adroddiad mewn trafodaethau sy'n berthnasol i orchmynion yn y dyfodol.

Eitem 6 – Moderneiddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol

Cyflwynwyd papur gan Unite yn ymateb i gynigion NFU/FUW a gyflwynwyd i AAP15. Roeddent yn pryderu ynghylch sut y gellid symleiddio pethau yn enwedig o ran Prentisiaethau. Roeddent felly wedi ail-edrych ar raddfeydd ac wedi cynnig eu cynigion eu hunain. Bu'r Panel yn trafod y bandiau oedran oedd yn cael eu cynnwys yn y graddau 'Datblygu Gweithiwr Amaethyddol' a'r "Gweithiwr Amaethyddol" ac ynghylch profiad gweithwyr a sut y gellid cydnabod hynny. Cytunwyd dros dro y gellid newid y bandiau oedran a chynnwys y geiriau "llai na pum mlynedd o brofiad" ar gyfer Datblygu Gweithiwr Amaethyddol a "pum mlynedd neu fwy o brofiad" ar gyfer Gweithiwr Amaethyddol. Byddai y categori Gweithiwr Amaethyddol Hŷn hefyd yn cael ei ystyried ymhellach.

Byddai'r newidiadau yn cael eu gwneud i'r papur i'w trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynwyd dogfen Cyngor Cyfreithiol i'r Panel mewn ymateb i sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch dau faes o

Orchymyn 2019. Cytunwyd y byddai geiriad Erthygl 15, Erthygl 21(2) ac Erthygl 16b yn cael eu hail-ddrafftio i'w gwneud yn fwy eglur ac i sicrhau bod y geiriad yn gyson â chyfraith y DU.

Cafodd drafft cyntaf o'r llinell amser ar gyfer y Gorchymyn yn 2020 a 2021 eu cyflwyno i'r Panel. Mae'r llinell amser ar gyfer Gorchymyn 2020 yr un fath â blynyddoedd blaenorol a chafodd llinell amser baralel ar gyfer moderneiddio llawn erbyn 2021 ei thrafod hefyd. Cytunwyd y byddai'r Panel erbyn y cyfarfod nesaf yn rhoi eu barn ar yr hyn sy'n realistig o ran sicrhau bod Gorchymyn wedi ei foderneiddio'n llawn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Byddai'r undebau ffermio hefyd yn darparu rhestr i Unite o'r hyn y maent yn gredu sydd angen edrych arno yn y Gorchymyn. Cytunwyd y byddai'r llinell amser ar gyfer 2021 yn cael ei adolygu'n rheolaidd i gadw targed realistig ar gyfer y Gorchymyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

Eitem 7 - Trafod Dyddiadau i Gyflwyno Papurau ar gyfer y Cyfarfod Trafod Telerau
Dywedodd y Cadeirydd, er mwyn i'r cyfarfod Trafod Telerau ar yr 2il Fedi redeg yn esmwyth roedd angen i'r ddwy ochr gyflwyno eu papurau ar Orchymyn 2020 erbyn 16 Awst. Roedd y ddwy ochr yn cytuno â hyn.

Eitem 8 – Unrhyw Fater Arall

- Bu anghydfod am gyflogau amaethyddol yng Ngogledd Cymru oedd bellach yn dod i ben ond a oedd wedi golygu bod cyflog gweithiwr wedi bod £26,000 yn brin dros nifer o flynyddoedd.
- Collodd Darparwr Gwaith ei drwydded oherwydd ei fod wedi torri'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol sawl gwaith. Roedd y darparwr yn Swydd Gaer ond roedd wedi darparu gweithwyr i fusnesau yng Nghymru.
- Mae'r achosion hyn yn dangos bod y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn gweithio a bod pobl yn cymryd sylw ohono.

Eitem 9 - Cyfarfodydd Nesaf

- Dydd Llun 2il Medi
- Dydd Iau 24 Hydref
- Dydd Mercher 2il Hydref (is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant)

Dywedodd y Cadeirydd ei fod am gynnal Cyfarfod Moderneiddio bob mis hyd at ddiwedd Ionawr 2020 i sicrhau bod momentwm ar foderneiddio Gorchymyn 2021. Bydd dyddiad ym mis Tachwedd yn cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl. Yna daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.